HOUSING FIRST NETWORK WALES

RHWYDWAITH TAI YN GYNTAF CYMRU

# TAI YN GYNTAF A MENYWOD YNG NGHYMRU

## ADRODDIAD GAN YR IS-GRŴP TAI YN GYNTAF I FENYWOD



cymorth cymru
cysylltu • cryfhau • dylanwadu

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN | 3 |
| METHODOLEG | 4 |
| YSTADEGAU | 5 |
| CYFARFODYDD YR IS-GRŴP | 7 |
| CYFWELIADAU | 9 |
| ASTUDIAETH ACHOS: BASIS YORKSHIRE | 15 |
| CYD-DESTUN EHANGACH Y RHWYDWAITH | 17 |
| YR HAWL I GAEL TŶ DIGONOL | 18 |
| ARGYMHELLION | 19 |

# CYFLWYNIAD

**Mae Tai yn Gyntaf – dull dan arweiniad tai, person-ganolog a thrawma-wybodus o ymdrin â digartrefedd, a chanddo ddegawdau o dystiolaeth ryngwladol i'w gefnogi – yn parhau i ddatblygu a chryfhau drwy Gymru gyfan. Yn erbyn cefnlen o symudiad unedig gan Lywodraeth Cymru tuag at ailgartrefu cyflym, bydd Tai yn Gyntaf yn parhau i fod yn 'ben' mwyaf dwys y sbectrwm o ddulliau dan arweiniad tai.**

Oherwydd hynny, mae adnabod y bobl sydd â'r mwyaf o angen y lefel ddwys o gymorth sy'n dod fel rhan o Tai yn Gyntaf yn dasg holl bwysig. Mae trafodaethau diweddar o fewn y Rhwydwaith Tai yn Gyntaf, a chyfarfodydd o'r Panel Achredu, wedi nodi'r mater canlynol: yng nghyd-destun Tai yn Gyntaf, gallai rhoi ffocws ar bobl yn cysgu ar y stryd – fel yr awdurdodir gan yr egwyddorion cyfredol – arwain at grwpiau eraill o bobl fregus yn mynd 'ar goll'. (Mae'n werth nodi hefyd bod y pandemig COVID-19 wedi symud niferoedd mawr o bobl oddi ar y strydoedd i mewn i lety argyfwng a lleoliadau eraill; gallai'r cyd-destun newydd hwn hefyd olygu bod angen newid rhywfaint ar yr egwyddorion.)

Mae'n bosibl felly fod yna niferoedd sylweddol o bobl nad ydynt – neu na fuont – yn cysgu ar y stryd, ond sy'n parhau i fod ag angen Tai yn Gyntaf. Awgrymwyd fod menywod yn cael eu gor-gynrychioli o fewn y grŵp, o'u cymharu â'r rhai hynny sydd eisoes yn tueddu i dderbyn cymorth gan Tai yn Gyntaf. Mae tystiolaeth a roddwyd gan lawer o aelodau a darparwyr gwasanaeth Cymorth Cymru yn dangos bod menywod digartref yn llai tebygol o gysgu ar y stryd, ond yn fwy tebygol o gael profiad o ddigartrefedd cudd, megis syrffio soffas.

Yn amlwg, mae angen edrych ar yr egwyddorion – yn enwedig yr un sy'n trafod y 'gynulleidfa darged' yng nghyd-destun Tai yn Gyntaf – i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y pwrpas, tra hefyd yn cadw'n driw i Tai yn Gyntaf, sydd wedi cael ei brofi'n rhyngwladol i fod yn ddull effeithiol. Mae gennym hefyd gynlluniau i adolygu egwyddor rhif 8: 'Caiff y gwasanaeth ei gyflenwi mewn dull seicolegol-wybodus, trawma-wybodus, rhywedd-wybodus, sy'n sensitif ac yn ymwybodol o nodweddion gwarchodedig' ac ystyried sut y gallwn gefnogi sefydliadau i fod yn rhagweithiol rhywedd-wybodus. Mae hwn yn ddarn parhaus o waith, dan arweiniad aelodau o'r Rhwydwaith Tai yn Gyntaf.

Mae darn ychwanegol o waith yn ymwneud ag archwilio'r cyd-destun presennol o gwmpas menywod a Tai yn Gyntaf yng Nghymru – yn cynnwys menywod sydd ar hyn o bryd yn derbyn, neu sydd wedi derbyn, cymorth gan Tai yn Gyntaf, a menywod a allai gael budd o gymorth Tai yn Gyntaf.

Bu Tai yn Gyntaf i Fenywod – is-grŵp o'r Rhwydwaith a sefydlwyd yn ddiweddar – yn trafod a chytuno ar gynllun sy'n cyfuno dulliau ymchwil gweddol anffurfiol, i geisio dysgu mwy am y cyd-destun, y rhwystrau a'r cyfleoedd, i sicrhau bod menywod yn gallu cael mynediad at y model hwn a ganmolir yn rhyngwladol, a chael budd ohono. Mae'r adroddiad hwn yn esbonio pa ddulliau a ddefnyddiwyd i archwilio'r berthynas rhwng Tai yn Gyntaf a menywod yng Nghymru, a'r cyd-destun cysylltiedig. Trafodir y canfyddiadau, cyn mentro cynnig rhai argymhellion a chasgliadau.

Roedd y gwaith hwn yn ymdrech ar y cyd rhwng Cymorth Cymru, Cymorth i Ferched Cymru, ac aelodau o'r ddau sefydliad ledled Cymru. Darparodd aelodau o'r Rhwydwaith Tai yn Gyntaf a'r is-grŵp Tai yn Gyntaf i Fenywod o'r Rhwydwaith hwnnw lawer o'r mewnwelediad a'r wybodaeth a geir yn y ddogfen hon.

# METHODOLEG

Defnyddiwyd amryw o ddulliau ymchwil i gasglu'r deunydd a drafodir yn yr adroddiad hwn. Roedd y gwaith yn weddol anffurfiol, gan mai ei nod oedd adeiladu darlun cyffredinol gyda mewnwelediad a mewnbwn o nifer o wahanol ffynonellau. Cafwyd caniatâd gan yr unigolion penodol oedd wedi cyfrannu trwy gymryd rhan mewn cyfweliadau/sgyrsiau anffurfiol.

Daeth syniad am y cyd-destun a brofir gan fenywod mewn prosiectau Tai yn Gyntaf yng Nghymru, problemau posibl sy'n effeithio ar fenywod a allai gael eu diystyru gan brosiectau Tai yn Gyntaf, a'r berthynas rhwng prosiectau Tai yn Gyntaf a gwasanaethau arbenigol, o'r sianeli canlynol:

- Cyfweliadau anffurfiol a sgyrsiau gydag unigolion/timau penodol – o brosiectau Tai yn Gyntaf ac o sefydliadau, gwasanaethau ac asiantaethau eraill
- Trafodaethau a gafwyd yng nghyfarfodydd Is-grŵp Tai yn Gyntaf i Fenywod Rhwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru
- Gwybodaeth yn deillio o gyflwyniadau a roddwyd yng Nghynhadledd Tai yn Gyntaf Cymorth Cymru 2022
- E-byst a negeseuon a gyfnewidiwyd rhwng aelodau o'r Is-grŵp ac unigolion penodol
- Archwilio ystadegau sy'n bodoli eisoes, a chasglu rhai newydd – gwaith a wnaed gan Cymorth Cymru, Cymorth i Ferched Cymru a Llywodraeth Cymru

Ar ôl casglu'r dystiolaeth drwy'r dulliau a ddisgrifiwyd uchod, bu staff o Cymorth i Ferched Cymru a Cymorth Cymru yn cydweithio ar yr adroddiad hwn, a thrwy gydol y broses bu aelodau o'r Is-grŵp yn cyflwyno adborth.

## YSTADEGAU

Mae gwahanol setiau o ystadegau, a gasglwyd gan Cymorth i Ferched Cymru yn ystod 2021, yn cyfrannu at ddealltwriaeth o gyd-destun menywod a Tai yn Gyntaf yng Nghymru. Drafftiwyd yr adran hon o'r adroddiad gan staff Cymorth i Ferched Cymru, ac oherwydd hynny defnyddir y person cyntaf.

Mae data aelodaeth blynyddol y sefydliad o 2020/21 yn dangos y canlynol:

- Roedd cynnydd o 22% yn nifer y goroeswyr na ellid eu cefnogi gan y lloches oherwydd diffyg capasiti neu ddiffyg adnoddau, o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol.
- Cefnogodd y gwasanaethau cymorth yn seiliedig ar Lochesi 283 o blant bob chwarter, gan ddangos parhad yn y nifer uchel o blant oedd mewn llochesi yn ystod y pandemig a chanddynt fynediad cyfyngedig at weithwyr arbenigol sy'n darparu cymorth i blant.
- Derbyniodd gwasanaethau cymorth wedi'u lleoli yn y gymuned gynnydd o 23% mewn atgyfeiriadau o'r flwyddyn ariannol flaenorol, ac roedd cynnydd o 12% yn y nifer o oroeswyr na ellid eu cefnogi gan wasanaethau cymorth cymunedol oherwydd problemau gydag adnoddau a chapasiti.

Dengys arolygon aelodaeth Cymorth i Ferched Cymru fod y rhan fwyaf o'r gwasanaethau'n hyderus bod yr adnoddau angenrheidiol ganddynt i gyflenwi eu lefel bresennol o wasanaeth eleni. Fodd bynnag, yr adborth a ddaw'n barhaus o gyfarfodydd aelodaeth Cymorth i Ferched Cymru yw bod y cyllid presennol yn talu dim ond am ddyletswyddau sy'n bodoli eisoes, heb adael unrhyw beth dros ben ar gyfer argyfyngau, cynnydd annisgwyl mewn capasiti, neu'r angen i fod yn hyblyg wrth gynnig cymorth.

Ar hyn o bryd, nid yw'r amgylchiadau ariannol cyfredol yn cwrdd â lefel gyfredol yr angen. Mae data blynyddol Cymorth i Ferched Cymru yn dangos cynnydd yn y nifer o oroeswyr na ellir eu cefnogi ar draws y gwasanaethau oherwydd diffyg capasiti ac adnoddau. Wrth archwilio'r adnoddau cyfredol, nid yw'r gwasanaethau arbenigol mewn sefyllfa i gefnogi'r cynnydd mewn goroeswyr sy'n wynebu llu o anfanteision ac yn chwilio am gymorth.

Dros y flwyddyn ariannol flaenorol, roedd yna gynnydd arwyddocaol yn y rhesymau canlynol dros wrthod lloches:

- Yn methu cwrdd ag anghenion cymorth (o gwmpas cyffuriau ac alcohol) (27%)
- Yn methu cwrdd ag anghenion cymorth (o gwmpas iechyd meddwl) (61%)
- Anniogel (y tramgwyddwr yn gwybod ble mae lleoliad y goroeswr / lloches) (92%)
- Dim / ychydig iawn o fynediad at arian cyhoeddus (29%)


Mae'r ddau reswm cyntaf yn dangos yr angen am gymorth aml-asiantaeth cryfach ar gyfer menywod a chanddynt anghenion cymorth lluosog sy'n cyd-ddigwydd – rhywbeth y dylai prosiectau Tai yn Gyntaf i fenywod fod mewn gwell sefyllfa i fynd i'r afael â hwy.

Methodd cyfanswm o 692 o oroeswyr gael lle mewn lloches oherwydd diffyg capasiti, ac roedd 312 o oroeswyr ar restrau aros am wasanaethau trais rhywiol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2020/21. Ar hyn o bryd, ni all aelodau Cymorth i Ferched Cymru ymestyn y gwaith ataliol, na chwaith gynyddu capasiti er mwyn gallu darparu cymorth i ragor o oroeswyr.

Mae'r pandemig COVID-19 eisoes wedi arwain at gynnydd yn nifer y goroeswyr (22%) a'r bobl bryderus (43%) a gysylltodd â'r Llinell Gymorth Byw Heb Ofn yn ystod 2020/21. Mae effaith cyfyngiadau COVID-19 ar brofiadau goroeswyr o gam-drin a thrais yn debygol o arwain at gynnydd yn yn yr anghenion cymorth yn yr hir-dymor, yn cynnwys darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc. Disgwylir cynnydd mewn anghenion iechyd meddwl wrth i effaith hir-dymor COVID-19, a chynnydd mewn llymder, gael effaith ar iechyd a lles pobl; mae'n debygol y bydd y galw am ddarpariaeth yn cynyddu dros amser.

# YSTADEGAU TAI YN GYNTAF

Arolygwyd dau ar bymtheg o brosiectau Tai yn Gyntaf yng Nghymru fel rhan o ymarferiad parhaus i gasglu data. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd yr ystadegau yn ystod y cyfnod o Chwefror 2018 hyd ddiwedd Medi 2022 wedi eu casglu a'u cyhoeddi.




Roedd un o'r cwestiynau'n gofyn am ddadansoddiad yn ôl rhywedd o'r bobl oedd wedi derbyn cymorth gan y prosiect dros y cyfnod hwn. O'r 701 o bobl a gefnogwyd gan brosiectau Tai yn Gyntaf yng Nghymru rhwng Chwefror 2018 a Medi 2022, nodwyd fod 150 ohonynt yn fenywod – h.y. 21%.

Y cwestiwn y bydd angen ei ateb dros amser yw: faint o fenywod a allai gael budd o gymorth Tai yn Gyntaf sy'n cael eu diystyru, neu sydd – am ryw reswm neu'i gilydd – yn cael eu colli gan y gwasanaethau.

## CYFARFODYDD YR IS-GRŴP

Cyn gynted ag yr oedd y cynllun gwaith ar gyfer y darn hwn o ymchwil wedi'i gytuno gan Is-grŵp Tai yn Gyntaf i Fenywod Rhwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru, a pheth o'r cynnwys wedi'i gynllunio, cafwyd trafodaeth sylfaenol ynghylch y cyd-destun presennol (yn achos menywod) mewn prosiectau Tai yn Gyntaf sy'n gweithredu ar hyn o bryd. Yn dilyn, ceir crynodeb o'r pwyntiau a wnaed gan gynrychiolwyr gwahanol brosiectau neu sefydliadau yn ystod cyfarfodydd o'r Is-grŵp.

*'Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda menyw sy'n dioddef trais domestig; mae angen bod mewn cysylltiad â MARACs (Cynadleddau Asesu Risg Aml-asiantaeth), ac IDVAs (Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol), gan geisio cydweithio mor agos â phosibl, yn enwedig o ran cynllunio ym maes diogelwch. Yn achos y grŵp hwn o fenywod, hwy yw'r mwyaf tebygol o fod â'r anghenion mwyaf cymhleth, ac oherwydd hynny hwy sy'n cael yr anhawster mwyaf i ddod o hyd i lety – a chymryd eu bod wedi eu hysgogi digon i'w dderbyn.*

*Mae gweithio gydag IDVAs a MARACs yn gymharol rwydd gan fod y prosesau i gyd yn eu lle a phawb wedi ymrwymo i roi cymorth i'r cleientiaid. Byddai'n fuddiol cael cysylltiad agosach yn gyffredinol rhwng prosiectau Tai yn Gyntaf a chynlluniau DV (Trais Domestig) yn yr awdurdodau lleol.*

*Wrth siarad gyda rheolwyr cynlluniau Trais Domestig, deellir fod llawer ohonynt yn rhoi cymorth yn bennaf i gyflawnwyr gwrywaidd yn hytrach nag i fenywod sy'n dioddef Trais Domestig, gan ddangos ymhellach yr anghyfartaledd rhywedd yn y bobl rydym yn rhoi cymorth iddynt.*

*Mae yna brofiad eang iawn o drawma ac allgymorth grymusol, ac mae adeiladu perthnasoedd yn holl bwysig. Mae gwir angen mynediad at wasanaeth iechyd meddwl ataliol, cyn i bobl gyrraedd y cam argyfwng a dechrau hunan-niweidio neu hunan-feddyginiaethu.'*

**Sefydliad Cymru-gyfan**

*'Rydym ar hyn o bryd yn gweithio gyda Cymorth i Ferched Abertawe sy'n rhedeg y prosiect SWAN i roi cymorth i fenywod yn Abertawe sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol. Mae gennym ddau weithiwr TG sy'n gwirfoddoli i wneud un shifft bob 6 wythnos, sy'n ein galluogi i nodi cleientiaid TG posibl a dechrau adeiladu perthynas gyda hwy. Buom yn gweithio gyda Cymorth i Ferched Abertawe yn y gorffennol, ac roedd aelod o'r tîm wedi bod yn gwirfoddoli gyda Phrosiect Swan sy'n cefnogi merched sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol yn Abertawe. Roeddem wedi estyn allan i'r prosiect gan fod dau aelod eithaf newydd o'r staff wedi mynegi diddordeb mewn gwirfoddoli gyda'r prosiect. Bob mis, rydym hefyd yn mynychu cyfarfodydd MARAC sy'n trafod pobl fregus ar y stryd a thrais domestig.*

*Gan fod rhai o'n cleientiaid TG cyntaf mewn perthynas, ac yn gyfarwydd i'r Opsiynau Tai a gwasanaethau eraill, roedd hyn yn ei gwneud yn weddol rwydd i ddod o hyd i le iddynt.*

*Mae gennym ein llety â chymorth dros dro ei hunain ar gyfer pobl sengl, yn ogystal â llety G&B, gydag atgyfeiriadau'n dod yn uniongyrchol o'r Opsiynau Tai. Ymddengys taw iechyd meddwl yw'r unig faes na fu raid i ni ei brynu i mewn yn Abertawe.'*

**Prosiect Tai yn Gyntaf Abertawe**

*'Rydym yn rhoi cymorth i fenyw ifanc sy'n ddigartref ar y stryd, ac sy'n gwrthod mynd i unrhyw le heb ei phartner gwrywaidd.  Mae hyn yn achosi problem wrth geisio ei chartrefu gan fod angen i'w phartner hefyd gael ei asesu. Mae rhai llefydd (e.e. busnesau Gwely a Brecwast) yn anfodlon gadael iddynt rannu'r un ystafell.'*

**Prosiect Tai yn Gyntaf Gwynedd**

*'Fel rhan o ofynion Llywodraeth Cymru parthed y Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym, rydym yn awyddus i awdurdodau lleol gynllunio ar sail partneriaeth, a byddwn yn cysylltu ag awdurdodau lleol i gael atebion i gwestiynau megis: Yn eich profiad chi, pa fath o anghenion mae menywod mewn prosiectau Tai yn Gyntaf yn tueddu i'w cael? Oes arnynt angen rhyw fath unigryw o gymorth? Sut rydych chi a'ch cydweithwyr wedi tueddu i weithio gyda menywod,  a pha arfer da y byddech chi'n ei argymell?'*

**Llywodraeth Cymru**

Mae'n werth nodi bod y rhain y math o gwestiynau mae'r adroddiad hwn yn ceisio taflu rhywfaint o oleuni arynt.

# CYFWELIADAU

Cynhaliwyd cyfweliadau gyda rhanddeiliaid a chanddynt ddiddordeb mewn trafod y posibilrwydd o roi cymorth i fenywod trwy'r dull Tai yn Gyntaf. Mae'r hyn sy'n dilyn yn grynodeb o'r cyfweliadau hynny, ac yn tanlinellu'r pwyntiau allweddol. Cyflwynwyd y cyfweliadau'n ddi-enw cyn belled ag oedd yn rhesymol bosibl.

## CYFWELIAD 1

Roedd y cyfranogwr cyntaf yn cynrychioli sefydliad sy'n rhoi cymorth i fenywod mewn rhan benodol o Gymru. Er eglurder, gelwir y sefydliad arbenigol hwn yn Sefydliad A yn y crynodeb yma. Mae gan Sefydliad A gysylltiadau gyda phrosiect Tai yn Gyntaf sy'n gweithredu'n lleol; gelwir hwn yn Sefydliad B. Oherwydd bod aelodau o staff Sefydliad B yn cyflawni gwaith allgymorth mewn cydweithrediad â Sefydliad A, mae merched bregus yn yr ardal yn dod i wybod am y prosiect Tai yn Gyntaf, a gall yr allgymorth hwn weithredu fel llwybr i mewn i Tai yn Gyntaf – trafodir y dull hwn o ymgysylltu'n weithredol yn yr egwyddorion Tai yn Gyntaf a ddefnyddir yng Nghymru. Mae dod yn gyfarwydd â'r aelodau yma o'r staff yn beth positif iawn, gan ei fod yn gwneud unrhyw ryngweithio yn y dyfodol yn rhwyddach. Mae atgyfeiriadau o'r Sefydliad A arbenigol hwn i mewn i Sefydliad B – y prosiect Tai yn Gyntaf – hefyd yn digwydd.

Yn ddiddorol iawn, yn ôl y person a gyfwelwyd, ymddengys fod Sefydliad B wedi 'hyrwyddo'n weithredol' y mater o gynnwys menywod yn y prosiect. Yn anffodus, mae prosiect cydweithredol mwy cydlynol – a drafodwyd yn wreiddiol cyn y pandemig COVID-19, lle byddai Sefydliad A yn darparu cymorth arbenigol i gleientiaid yn Sefydliad B – wedi ei atal oherwydd y pandemig. Wedi dweud hynny, roedd un o'r menywod a gefnogwyd gan Sefydliad A wedi symud i Sefydliad B yn ystod y pandemig. Yn y cyfweliad, cyfeiriwyd at fath o broses 'uwchsgilio' lle roedd staff Sefydliad B, oedd yn wreiddiol yn gweithio mewn allgymorth, yn dechrau gweithio gyda menywod bregus ac yn datblygu eu sgiliau mewn cyflenwi cymorth i'r grŵp hwn o gleientiaid.

Wrth ddisgrifio cyd-destun y fenyw dan sylw, dywedodd y cyfwelai: '[Roedd y person mewn] sefyllfa gymhleth iawn … o … pan oedd yn 12 oed, [dioddefodd] ecsbloetio tymor-hir. Iechyd meddwl a chorfforol . . . gwael iawn, camddefnydd uchel o sylweddau, ac o Dduw, [mae'r cymorth] wedi newid ei bywyd. Am wahaniaeth! Am wahaniaeth syfrdanol! Mewn gwirionedd, mae'r cyfan wedi bod yn gwbl anhygoel …'

Aeth y cyfwelai ymlaen i dynnu sylw pellach at agweddau positif y sefyllfa, a'r modd y cafodd cymorth ei ddarparu: 'Mae cael gweithiwr dynodedig sy'n gweithio o'r [persbectif] 'dim troi allan' hwnnw … o'r persbectif 'byddwn ni'n aros gyda chi, waeth beth fydd y sefyllfa', wedi gwneud gwahaniaeth enfawr … [mae'r gweithiwr cymorth yn grêt ac] wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i'r [cleient]. Cael y cysondeb hwnnw, a'r gallu i gadw'r ecsbloetwyr a'r camdrinwyr i ffwrdd … mae hi wedi llwyddo i dorri'r cylch dieflig roedd hi ynddo, a'r cylch o gysylltiadau. Ydy wir, mae e wedi bod yn anhygoel a dweud y gwir.'

Trafodwyd yr angen am weithiwr cymorth benywaidd, ynghyd â chysondeb mewn gofal. Tynnwyd sylw hefyd at ddarpariaeth cwnsela Sefydliad B fel agwedd bositif allweddol o'r cymorth a gyflenwir – yn enwedig wrth 'fynd i'r afael â thrawma tymor-hir'.

Yn ystod y cyfweliad trafodwyd hefyd elfennau eraill o gymorth Sefydliad B, ynghyd â'r model Tai yn Gyntaf mewn ffordd fwy cyffredinol – dewis y cleient o lety a lleoliad, yn arbennig, ynghyd â'r gymuned a'r gwasanaethau o gwmpas y person. Er nad oedd plant gan y person a drafodwyd, soniwyd hefyd y gallai person fod ag angen bod yn agos at ysgolion a theulu.

Pa ofynnwyd sut y gall prosiectau Tai yn Gyntaf wella mynediad i fenywod, dyma oedd trywydd y drafodaeth: yn ddelfrydol, byddai sefydliad sy'n gweithio gyda menywod yn darparu'r cymorth hwnnw. Yn ddiddorol iawn, yn achos y cleient hwn, roedd yna amgyffred yn lleol fod Sefydliad B yn gweithio gyda dynion digartref, fel mater o bolisi. Nid yw hyn yn wir, wrth gwrs, ond dengys yr effaith y gall digartrefedd mwy gweladwy, sy'n tueddu i effeithio dynion yn anghymesur, ei gael ar ganfyddiad pobl. Yn yr achos hwn, roedd cael gwarant y byddai gweithiwr cymorth benywaidd ar gael wedi helpu i wneud y gwahaniaeth.

Pwysleisiodd y cyfwelai bwysigrwydd sefydliadau arbenigol i fenywod, a'r gallu i gymhwyso dadansoddiad rhywedd arbenigol i gleient neu sefyllfa. Gall sefydliadau arbenigol i fenywod gynnig ystod eang o wasanaethau a chymorth, ac osgoi'r broblem gydnabyddedig bod lleisiau gwannach gan fenywod mewn sefydliadau nad ydynt yn arbenigol. Mae'n werth nodi'r ffaith fod y cyfwelai wedi dweud bod y broblem hon yn codi oherwydd bod llai o fenywod yn y sefydliadau hyn, ond hefyd oherwydd nad yw'r sefydliadau'n 'mynd allan o'u ffordd i dargedu menywod'. Mae hyn yn awgrymu y byddai dull mwy cynhwysol gan sefydliadau nad ydynt yn gweithio gyda menywod yn unig yn rhywbeth positif. Mae rhai o'r agweddau dilynol o gymorth gaiff eu priodoli i sefydliadau menywod – darganfod beth sy'n plesio cleient, megis mynd am dro ar y traeth er enghraifft – yn rhywbeth a ddisgwylid mewn unrhyw brosiect Tai yn Gyntaf.

Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith hon – po fwyaf o fenywod sy'n cael eu cynorthwyo gan brosiect, y mwyaf cyfforddus y byddai'r menywod yn teimlo.

Gofynnwyd i'r cyfwelai pa gyngor y gellid ei roi i brosiect Tai yn Gyntaf sy'n ceisio sefydlu cysylltiadau gyda sefydliadau arbenigol sy'n gweithio gyda menywod. Yn bennaf, 'mae'r cyfan yn dibynnu ar wneud cysylltiad' – mae'r cam cyntaf hwnnw'n amlwg yn allweddol. Gall fod gwahanol farn ar ble mae gweithwyr arbenigol yn eistedd – yn y prosiect Tai yn Gyntaf ei hun, neu o fewn sefydliad arbenigol sy'n cydweithio gyda'r prosiect Tai yn Gyntaf. Mae'n werth nodi bod yr Is-grŵp Tai yn Gyntaf i Fenywod, Rhwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru wedi clywed am ddulliau gwahanol o weithredu, a'u bod wedi gweithio yn eu cyd-destun. Felly, ni ddylid ystyried bod un dull o weithredu o anghenraid yn well nag un arall, cyn belled â bod menywod yn derbyn cymorth arbenigol. Yn y pen draw, mae angen i weithwyr cymorth sy'n rhan o brosiect Tai yn Gyntaf ddatblygu o leiaf ddealltwriaeth sylfaenol o'r problemau sy'n effeithio ar fenywod sy'n cael profiad o wahanol fathau o ddigartrefedd. Yn ogystal, fel yn achos Sefydliad B a'u staff allgymorth, mae datblygu perthnasoedd a dod i adnabod menywod yn lleol yn holl bwysig. Gall pethau fel rhaglenni addysgol, datblygu sgiliau, a darpariaeth mor amrywiol ag y bo modd, weithio'n dda gyda menywod.

Gofynnwyd cwestiwn ynghylch bylchau sy'n bodoli mewn adnoddau a allai helpu sefydliadau arbenigol i gysylltu mewn modd effeithiol gyda phrosiectau Tai yn Gyntaf. Yn ôl y cyfwelai, byddai prosiect ar ecsbloetio rhywiol yn cael ei redeg gan Sefydliad A yn elwa o gael aelodau ychwanegol o staff. Hefyd, croesewid cyfarfodydd hirach, yn ymwneud mwy â phartneriaid yn y sector – rhywbeth oedd yn arfer digwydd yn y gorffennol – gyda gwahanol bartneriaid yn abl i ddylanwadu ar yr agenda.

Pan ofynnwyd pa un peth y byddai'r cyfwelai yn ei newid yn y berthynas rhwng prosiectau Tai yn Gyntaf a gwasanaethau arbenigol i fenywod, pwysleisiodd y cyfranogwr 'y cysylltiad' rhwng sefydliadau, a'r modd y mae angen i'r cysylltiad hwn fod yn rhan o ffordd o feddwl cyffredin bob dydd. Hynny yw, cyn gynted ag y bo menyw yn cyflwyno'i hun i'r gwasanaeth Tai yn Gyntaf, dylid cysylltu ar unwaith â sefydliad arbenigol fel y gall fod yn rhan o'r broses o'r cychwyn cyntaf. Mae hyn yn golygu bod angen i sefydliadau wybod am wasanaethau lleol eraill, a deall eu rolau.

Yn ogystal, trafododd y cyfwelai yr angen am ddealltwriaeth well a mwy eang o wahanol fathau o drais yn erbyn menywod, sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gam-drin domestig. Mae ffurfiau eraill yn cynnwys priodasau dan orfod, a rheolaeth orfodol.

## CYFWELIAD 2

Cynhaliwyd ail gyfweliad; mae'r cyfranogwr yn aelod hŷn o'r staff mewn sefydliad sy'n gweithio gyda phobl ifanc sydd yn, neu wedi, cael profiad o ddigartrefedd. Deallai'r cyfranogwr fod y cyfweliad dan sylw wedi'i ogwyddo o amgylch profiad menywod, a dylid ystyried yr atebion yn y modd hwnnw. Yn yr adran hon, gelwir sefydliad lle mae'r cyfwelai'n gweithio yn Sefydliad C.

Mae gan Sefydliad C gysylltiadau gyda gwahanol brosiectau TG. Yn nhermau TG a'i berthynas â menywod, amlygai'r person hwn yr angen am brosiectau TG, yn enwedig yn ystod gwaith allgymorth, i 'fachu [menywod]', i'w hargyhoeddi y gall y model weithio iddyn nhw, ac y bydd y cymorth yn gyson a dibynadwy – nodweddion na fyddai menywod bregus o bosibl wedi cael profiad ohonynt ers amser maith. O ran y problemau y gellid fod angen eu hystyried, tynnodd y cyfwelai sylw at y canlynol: 'hanes blaenorol o gam-drin, ecsbloetio a thrawma, o bosibl o gyfnod plentyndod hyd nes eu bod yn oedolion, problemau iechyd meddwl, a chamddefnyddio sylweddau, ac o bosibl problemau cyfiawnder troseddol hefyd.' Tynnodd y cyfwelai sylw arbennig at y ffaith y byddai gan y cleientiaid hyn, neu ddarpar gleientiaid, ystod eang o gyd-destunau ac anghenion a allai fod yn gymhleth.

Amlygwyd hefyd agweddau o'r model Tai yn Gyntaf fel rhai a allai fod yn holl bwysig i ddatblygu perthnasoedd gyda menywod sydd ag angen cymorth: 'mae cymaint o wahanol fathau o wasanaethau [yn dweud], "os byddwch yn colli tri apwyntiad, cewch eich gosod yn ôl ar waelod y rhestr aros" [rhywbeth nad yw'n digwydd gyda Tai yn Gyntaf]'. Yn yr un modd, pan fo gan bobl reolaeth dros eu cymorth a'u rwtîn, gall hyn gael effaith hynod bositif. Fel y dywedodd y cyfwelai, 'os [nad yw rhywun] yn teimlo fel ymgysylltu ar ryw ddiwrnod arbennig, yna does dim rhaid iddyn nhw wneud.'

Aeth y cyfwelai ymlaen i restru agweddau o gymorth a allai fod yn fwy penodol ddefnyddiol pan yn cefnogi menywod: 'Yn achos menywod yn benodol [mae arnom angen] y dull rhywedd hwnnw o weithredu. [Mae hyn yn golygu] cael rhywun y gall [menyw] deimlo'n ddiogel i fynd atynt, cael lleoliad y gellid ei baratoi i fod yn addas rhag targedu ac yn ddiogel, i gadw [cleientiaid benywaidd] yn ddiogel rhag cael eu hecsbloetio gan wrywod, neu pwy bynnag allai fod yn risg iddyn nhw. [Mae'n bwysig hefyd sicrhau] bod [menywod] yn teimlo'n gyfforddus i gael y sgyrsiau hynny na fyddent yn eu cael heblaw eu bod yn cael eu cynnal mewn lle oedd wedi'i gynllunio'n benodol i gefnogi menywod, gwneud iddynt deimlo'n gyfforddus, a llwyddo i gael atebion iddyn nhw.'

Soniodd y cyfwelai hefyd am ystadegyn, gan amcangyfrif, 'mae ein … TG traddodiadol ar gyfer pobl ifanc [ar hyn o bryd yn rhoi cymorth i] tua 48% o atgyfeiriadau benywaidd … sy'n uwch na'r rhan fwyaf o wasanaethau TG.' Dilynwyd hyn gan ymgais i esbonio'r ganran gymharol uchel hon: '[Efallai,] fel ... pobl ifanc benywaidd, eu bod yn fwy gweladwy i'r gwasanaethau? Oherwydd bod mwy o wasanaethau wedi'u teilwrio ar gyfer pobl ifanc, efallai ei bod yn fwy anodd i [gwympo] drwy'r bylchau yn y blynyddoedd cynnar hynny.'

Byddai trafodaeth ddilynol yn nodi ffactor allweddol yn Rhwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru i benderfynu adolygu egwyddorion TG a ddefnyddir ledled y wlad: er ei bod yn anodd cysylltu niferoedd penodol â'r ffenomen hon, mae tystiolaeth yn awgrymu bod menywod yn llai tebygol o gysgu ar y stryd, neu brofi digartrefedd mewn modd mor amlwg a gweladwy.

Mae hyn yn adlewyrchu profiad y cyfwelai: 'gall fod llawer o fenywod nad ydyn nhw o bosib yn cyrraedd y cam o gysgu ar y stryd, ond sy'n ddigartref … oherwydd eu bod mewn llety bregus. [Maen nhw'n] syrffio soffas neu efallai'n symud o berthnasoedd bygythiol neu dan reolaeth i berthnasoedd [eraill] dan reolaeth… Mae'n faes ychydig yn ehangach o geisio sicrhau bod pobl yn ymwybodol o brosiectau TG i fenywod a sicrhau ein bod mewn cysylltiad â'r sector ar gyfer popeth sy'n ymwneud â gwasanaethau cymorth i fenywod, gwasanaethau cam-drin domestig, gwasanaethau VAWDASV, a gwasanaethau gwaith rhyw.'

Pwysleisiodd y cyfwelai berthynas y cysylltiadau a'r perthnasoedd hyn rhwng darparwyr gwasanaeth, yn ogystal ag Is-grŵp Tai yn Gyntaf i Fenywod y Rhwydwaith, a fforymau lleol sy'n gallu arwain at adnabod atgyfeiriadau.

Nesaf, holwyd y cyfwelai am arfer da penodol wrth gefnogi menywod drwy gyfrwng y model Tai yn Gyntaf, a menywod ifanc yn enwedig. Ymatebodd y cyfranogwr i'r cwestiwn hwn, yn ogystal â thrafod y cryfderau mae ar sefydliad eu hangen yn y maes hwn, fel a ganlyn:

'[Mae angen i'r llwythi gwaith] fod yn gymharol isel … mae ar y gweithwyr [angen] hyblygrwydd yn eu horiau gwaith … a dylid sicrhau bod [cleientiaid] yn hyderus y gallant estyn allan am unrhyw beth … [mae gennym] system ar-alw aml-haen rhag ofn bod problemau'n codi pan nad yw'r timau ar ddyletswydd …'

Yn ogystal, pwysleiswyd cymorth oddi wrth unigolion a sefydliadau arbenigol eraill – fel sy'n cael ei awdurdodi gan yr egwyddorion Tai yn Gyntaf a ddefnyddir yng Nghymru – gydag enghreifftiau penodol. 'Rydym … wedi codi arian i gyflogi tîm o seicolegwyr a chynghorwyr … [i sicrhau bod ein staff] yn cael …digon o gefnogaeth o gwmpas ymarfer adlewyrchol a … thrafodaethau ynghylch achosion.'

Wrth droi at bwnc iechyd meddwl, ychwanegodd y cyfwelai, '[Mae'r holl wasanaethau] wedi bod mewn sefyllfaoedd … yn ceisio'n daer i gael cymorth iechyd meddwl ar gyfer menywod neu unigolion, ond oherwydd … bod y system wedi cael ei thanariannu …mae'r cymorth mor anodd i'w gael. Yn enwedig os oes problemau cysylltiedig eraill, megis camddefnyddio sylweddau … Ond mae cael ein seicolegydd mewnol [yn siarad] yr un iaith â'r gwasanaethau yn gallu gwneud gwahaniaeth go iawn.'

Gan adeiladu ar y syniad hwn, trafododd y cyfwelai bwysigrwydd cydweithredu aml-asiantaeth a phartneriaethau yng nghyd-destun Tai yn Gyntaf yn gyffredinol, ond yn enwedig wrth roi cymorth i fenywod. Caiff partneriaethau o'r fath 'effaith [hynod] lesol'. Pwysleisiodd y cyfwelai hefyd bwysigwydd hyblygrwydd, sy'n gallu cael effaith gadarnhaol ar 'achosion sy'n sownd yn yr unfan'. Mae'n bwysig ei gwneud 'yn haws i lywio drwy'r system' a pheidio ag aros nes bod pobl 'mewn argyfwng difrifol' cyn y gellir cael mynediad at gymorth – sydd ymhlith egwyddorion allweddol y model Tai yn Gyntaf. Amlygodd y cyfwelai hefyd y problemau posibl gyda rhestrau aros hirfaith am gymorth o wahanol fathau, a'r ffaith fod angen i bobl allu 'gael mynediad at gymorth pan gânt eu hysgogi i wneud hynny'.

Roedd y cwestiwn nesaf yn ymdrin â ffyrdd o wella'r cysylltiad rhwng prosiectau Tai yn Gyntaf a gwasanaethau arbenigol sy'n gweithio gyda menywod ar lefelau lleol a chenedlaethol. Roedd yr ateb yn ategu pwysigrwydd ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r model Tai yn Gyntaf ar draws partneriaid lleol, ac adeiladu cysylltiadau rhwng prosiectau Tai yn Gyntaf a gwasanaethau eraill sy'n gweithredu mewn ardal benodol. (Mae'n werth nodi bod y problemau hyn yn cael eu trafod yn aml, nid dim ond yng nghyd-destun menywod. Mae dealltwriaeth o'r model, ac adeiladu prynu-i-mewn, yn holl bwysig o ran cynnwys sectorau eraill yn y gwaith o gyflenwi Tai yn Gyntaf go iawn. Mae'r syniad hwn hefyd wedi codi yn ystod cyfarfodydd o'r Panel Achredu, gydag arfer da cysylltiedig yn ymddangos yn yr adroddiadau achredu.)

Trafododd y cyfwelai 'y gallu, nid i landlordiaid yn unig, i weithredu achos o droi allan

ond i [ofyn], "Os nad yw hyn yn gweithio yma, pam? Efallai os symudwn ni'r [tenant hwn] i fflat arall, tybed a allai hynny fod yn ddechreuad newydd a allai wneud gwahaniaeth mawr mewn ardal wahanol? Efallai, gyda llai o bobl adnabddus iddyn nhw o gwmpas sy'n risg iddyn nhw, y math yna o beth."' Ychwanegodd y cyfwelai, 'po fwyaf [y gellir ei wneud] o flaen llaw, po fwyaf [y gellir dod â phobl i mewn] i gytuno … ar ei … ddull o lywio'r system … gan ei gwneud yn llawer llai cymhleth ac anodd i bobl gael y cymorth sydd ei angen arnynt, ar yr adeg iawn.'

Pan holwyd y cyfwelai ynghylch bylchau cyfredol mewn adnoddau y gellid o bosibl eu llenwi i wella'r cysylltiadau rhwng Tai yn Gyntaf a gwasanaethau arbenigol, pwysleisiodd yr angen am i'r sector iechyd chwarae rhan lawn fel her allweddol. Yn rhannol, fel yr esboniodd y cyfranogwr, mae hyn oherwydd bod 'gwahanol fyrddau iechyd yn gweithredu mewn ffyrdd ychydig yn wahanol'. Roedd y cyfwelai hefyd yn cydnabod yr heriau a'r pwysau y mae'r sector iechyd yn gweithredu oddi tanynt ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, ym marn y person hwn, mae angen gwell cysylltiad rhwng y sector iechyd ac asiantaethau a sefydliadau eraill.  Mae'r perthnasoedd hyn wedi dirywio mewn rhai ffyrdd, yn ôl y cyfwelai: 'Maent fel petaen nhw wedi symud i'r [ffordd o feddwl sy'n dweud] "ni fyddwn yn cymryd gair neb heblaw gair y person rydyn ni'n gweithio gyda nhw".' Cyfeiriodd y cyfwelai at y ffenomen hon: 'bron fel GDPR a chyfrinachedd [wedi'i gymryd] i'r eithaf.' Daeth y cyfwelai i'r casgliad bod 'angen i ni ailadeiladu'r bartneriaeth honno o weithio gyda [iechyd].'

Gofynnwyd i'r cyfwelai a gafodd y pandemig effaith ar y perthnasoedd hyn. 'Do, yn ddiamheuol,' atebodd. Aeth y cyfwelai ymlaen i drafod enghreifftiau penodol o effaith negyddol: 'Dywedwyd wrth bobl oedd mewn perygl o gyflawni hunanladdiad na ddylen nhw drafferthu mynd i Adran Frys yr ysbyty oherwydd na fydden nhw'n cael sylw gan neb yno! Roedd yn anghredadwy. Dwi'n deall bod y GIG yn gorfod tynnu adnoddau o bobman yn ystod ymdrech COVID, ond doedd e'n sicr ddim yn helpu unrhyw un, a gadawyd darparwyr i ddelio gyda phroblemau rydyn ni – peidiwch â cham-ddeall, rydyn ni wedi delio gyda nhw o'r blaen, ond bod mwy ohonyn nhw, ac yn mynd ymlaen yn llawer hirach hefyd, mewn argyfwng truenus mewn gwirionedd, [gyda] gwir berygl i fywyd. Felly byddwn i'n dweud bod y perthnasoedd hyn yn sicr wedi cael trafferthion ...'

Roedd y cwestiwn olaf yn ymdrin â pha newidiadau y gellid eu gwneud i wella'r rhyngweithio rhwng Tai yn Gyntaf a sectorau a sefydliadau eraill, yn ogystal ag i wella'r modd y caiff menywod eu helpu drwy'r model Tai yn Gyntaf. Pwysleisiodd y cyfwelai bwysigrwydd 'cyfathrebu, GDPR a chyfrinachedd'. Trafododd y cyfranogwr y broblem mae rhai cleientiaid a/neu darpar gleientiaid yn ei chael wrth rannu eu straeon, a'r angen am i sefydliadau rannu'r wybodaeth berthnasol yn y straeon gyda'i gilydd. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn rhoi cefnogaeth effeithiol i bobl ond, ym marn y cyfwelai, mae rhai pobl yn 'dal yn rhy ofnus i wneud hynny, yn enwedig yng nghyd-destun iechyd'. Aeth y cyfranogwr ymlaen i awgrymu peth arweiniad strateol a allai helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn, gan sicrhau bod mewnwelediad o ystod eang o asiantaethau a sefydliadau yn gysylltiedig â darparu cymorth. Derbyniai'r cyfwelai hefyd fod y sector iechyd yn 'symud tuag at' ddarpariaeth trawma-wybodus, sydd wrth gwrs yn cael ei fandadu yn Tai yn Gyntaf.

Unwaith eto, roedd y pwysau a'r heriau a wynebir ar hyn o bryd gan y 'llinell flaen' ym maes iechyd yn cael eu cydnabod, gyda'r rhain efallai'n rheswm dros y symudiad araf tuag at waith trawma-wybodus. Yn ystod yr atebion i'r cwestiynau hyn, roedd y person oedd yn siarad yn pwysleisio ac ailbwysleisio'r peryglon o aros i bobl fod mewn argyfwng cyn bod y ddarpariaeth gywir ar gael iddyn nhw.

Codwyd hefyd fater amseru partneriaethau – rhaid i sefydliadau weithio gyda'i gilydd 'o'r cychwyn cyntaf' [ychwanegwyd pwyslais] er mwyn gwneud i gymorth Tai yn Gyntaf, yn cynnwys cymorth Tai yn Gyntaf i fenywod, weithio'n dda. Siaradodd y cyfwelai am agwedd arall o'r berthynas rhwng darparwyr cymorth a sefydliadau tebyg, a'r person sy'n derbyn cymorth: sicrhau bod pobl yn 'teimlo fel petai rhywun wedi gwrando arnyn nhw'.

Wrth grynhoi, ychwanegodd y cyfwelai fod 'cysondeb y cymorth' yn allweddol, ac felly hefyd 'y gallu i dynnu … asiantaethau eraill i mewn pan [fo cleient] yn barod i ymgysylltu â nhw.'

# CYFWELIAD 3

Cynhaliwyd trydydd cyfweliad, gydag aelod o'r staff yn cynrychioli prosiect Tai yn Gyntaf a sefydlwyd yn ddiweddar i weithio'n benodol gyda menywod. Mae'r prosiect wedi wynebu galw trwm iawn am ei wasanaeth, nawr bod pobl leol yn ymwybodol o'i fodolaeth.

Er bod y llwyth gwaith bellach wedi cyrraedd penllanw, mae'r cymorth yn parhau i fod yn seiliedig ar y gymuned gan nad oes yr un o'r cleientiaid wedi cael eu cartrefu eto. Trafododd y cyfwelai yr ymdrechion a wnaed i wella'r ddealltwriaeth o Tai yn Gyntaf ar ran y cymdeithasau tai yn lleol, yn ogystal ag i gynyddu'r prynu-i-mewn i'r model. Canfyddiad y cyfwelai oedd fod Tai yn Gyntaf yn dal i allu ymddangos yn frawychus i bartneriaid allanol, gan esbonio: 'Ry'n ni'n anfon atgyfeiriad, ac mae e fel [yr ymateb yw] … "Mae hwn yn fwy cymhleth na'r un diwethaf anfonoch chi! Sut ry'n ni'n mynd i ddod i ben â hwn?"' Tanlinellwyd hefyd y broblem gyffredin o brinder tai, yn enwedig mewn ardaloedd dymunol. Mae yna risgiau anferth i fenywod bregus sydd mewn llety dros dro – bron cymaint â byw ar y stryd.

Rhestrodd y cyfranogwr yr un math o broblemau a wynebir gan y menywod mae'r prosiect hwn yn gweithio gyda nhw: mae bron y cyfan o'r cleientiaid cyfredol wedi wynebu trais domestig. Mae gan lawer ohonynt broblemau gyda sylweddau a/neu alcohol, yn ogystal â phroblemau iechyd meddwl. Hefyd, mae nifer o'r menywod ar hyn o bryd ynghlwm â gwaith rhyw. Mae'r problemau hyn yn 'rhemp', yn ôl y cyfwelai, sy'n pwysleisio sut mae'r prosiect hwn wedi amlygu 'gymaint mae'r problemau hyn … yn effeithio ar fenywod digartref.'

Pan holwyd y cyfwelai am arfer da, tanlinellodd yr angen i adeiladu ymddiriedaeth gyda menywod sydd, o bosibl, wedi cael eu gadael i lawr sawl tro gan y system. Mae hyn yn wir am Tai yn Gyntaf yn gyffredinol, ond mae'n werth ei bwysleisio yn y cyd-destun hwn. Rhaid i weithwyr gofal fod yn hynod o amyneddgar, a gweithredu ar yr hyn maen nhw wedi'i addo. Er enghraifft, tynnodd y cyfwelai sylw at un cleient a oedd byth a hefyd yn amau'r ffaith y byddai'r gweithwyr cymorth yn parhau i weithio gyda hi – byddai gweithwyr cymorth yn aml yn troi i fyny i gwrdd â'r cleient, ac roedd yr ymateb yn bositif.

Codwyd mater cyllidebau wedi'u personoli fel ran allweddol o'r cymorth. Mae gwaith achredu diweddar hefyd wedi gweld bod cyllidebu unigol yn rhan hanfodol o'r model TG. Fodd bynnag, mae angen y lefel gywir o gyllidebu. 'Roeddem yn gweld hynny fel rhywbeth i'w ddefnyddio pan fydd y person wedi cael tenantiaeth, ar gyfer beth bynnag mae ar y person hwnnw ei angen,' esboniodd y cyfwelai. 'Ond mewn gwirionedd ry'n ni'n defnyddio hynny nawr … falle bod arnynt angen y pethau sylfaenol … mae angen i ni allu gael gafael arnyn nhw i gyflenwi cymorth, felly ry'n ni eisoes wedi prynu llwythi o ffonau.' Yn amlwg, mae'r lefel gywir o ddarparu adnoddau a chymorth cyn-denantiaeth yn allweddol. Po gyflymaf y gellir cartrefu pobl, po gyflymaf y gellir troi'r cyllidebau tuag at wneud i dai deimlo fel cartrefi.

Nodwyd cysylltiadau â sefydliadau ac asiantaethau, ynghyd â darparwyr llety, fel materion holl bwysig. Darparwyd enghreifftiau penodol – galluogwyd gweithiwr cymorth y prosiect i roi cymorth yn effeithiol ac yn ddiogel, diolch i weithwyr proffesiynol o sefydliadau sy'n gweithio'n benodol ar broblemau VAWDASV, yn ogystal â gyda menywod a ecsbloetiwyd gan yr arbenigwr ar y diwydiant rhyw. Mae gweithwyr proffesiynol o'r sefydliadau camddefnyddio sylweddau hefyd wedi gweithio'n agos gyda staff y prosiect, ac wedi bod yn hanfodol. Pan ofynnwyd i'r cyfwelai pa fathau o adnoddau a chymorth ychwanegol fyddai'n fuddiol i'r prosiect hwn, pwysleisiwyd pwysigrwydd y partneriaid hyn a sut, mewn byd delfrydol, y gellid adeiladu ar hyn. Gan feddwl yn fwy eang am brosiectau, amlygodd y cyfwelai y dull hwn o weithio, a pha mor allweddol y mae wrth ddarparu cymorth effeithiol i fenywod.

Mewn ymateb i'r cwestiwn beth oedd angen ei newid i wella'r mynediad sydd gan fenywod i Tai yn Gyntaf Cymru, roedd y cyfwelai'n hollol bendant: tai. Mae angen i'r llety fod yno, i sicrhau y gall y menywod fyw mewn lle diogel, yn ddigon pell oddi wrth y sefyllfaoedd peryglus sy'n gysylltiedig â chysgu ar y stryd, neu mewn llety dros dro.

# ASTUDIAETH ACHOS - BASIS YORKSHIRE

Mae Basis Yorkshire yn rhedeg prosiect Tai yn Gyntaf i Fenywod yn Swydd Efrog, gan weithio'n unig gyda menywod a ecsbloetiwyd gan y diwydiant rhyw. Ym mis Gorffennaf 2022, rhoddodd staff o'r prosiect gyflwyniad yng nghynhadledd flynyddol Tai yn Gyntaf Cymorth Cymru. Cynhwyswyd elfennau o'r cyflwyniad yn yr adroddiad hwn, i weithredu fel math o astudiaeth achos. Gobeithiwn y gall yr astudiaeth achos hwn arddangos peth o'r ymarfer da sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Mae Basis, a sefydlwyd yn 1989, yn hyrwyddo dull yn seiliedig ar dystiolaeth, sy'n anfeirniadol a diamod, ac yn cymryd agwedd o leihau niwed. Mae'r prosiect yn gweithio gyda menywod a menywod anneuaidd sy'n cael eu hecsbloetio gan y diwydiant rhyw.

Mae'r prosiect yn gweithio gydag asiantaethau a sefydliadau eraill lle bynnag y bo modd, yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: yr heddlu lleol; y gwasanaeth iechyd; a gwasanaethau iechyd rhyw. Mae Basis yn gwneud gwaith allgymorth, yn trefnu sesiynau galw-i-mewn, ac yn cynnig apwyntiadau un-i-un gyda chleientiaid. Mae'r prosiect hefyd yn cynnig hyfforddiant.

Mae menywod sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw yn cael eu heffeithio'n anghyfartal gan ddigartrefedd, er eu bod yn llai tebygol o fod mewn cysylltiad â gwasanaethau digartrefedd, ac felly'n llai tebygol o ymddangos mewn arolygon o rai sy'n cysgu ar y stryd. Mewn sefyllfaoedd fel y rhain mae yna berygl o drawma ychwanegol, gan fod mwy o ecsbloetio gan gamdrinwyr yn bosibl.

Mae yna nifer o rwystrau yng nghyd-destun llety – megis stigma, dibyniaeth, allgáu digidol, heb fod yn berchen dull adnabod, a rheolaeth gorfodol. Mae llawer o gleientiaid a chleientiaid posibl yn berchen ar anifeiliaid anwes, sy'n aml yn chwarae rhan bositif iawn ym mywyd person, a rhaid cymryd hyn i ystyriaeth wrth ddod o hyd i lety. Gwyddom fod rhai o staff y prosiect wedi maethu rhai o'r anifeiliad anwes hyn i alluogi cleientiaid i ddod o hyd i lety addas.

Ar yr adeg y cyflwynwyd y prosiect, roedd manylion y cleientiad fel a ganlyn:

| Cymhlethdod | Allan o 7 cleient |
|---|---|
| Profiadau Andwyol mewn Plentyndod (ACEs) | 7 |
| Problemau iechyd meddwl (seicosis, iselder, anhwylder/pryderu, PSTD PD) | 7 |
| Problemau iechyd corfforol (DVTs, problemau gyda'r galon, COPD, arthritis septig) | 7 |
| COVID-19 – wedi profi'n bositif | 2 |
| Trais domestig a rhywiol | 7 |
| Defnydd problematig o gyffuriau (heroin, crac, sbeis, cyffuriau ar bresgripsiwn, yn aml wedi'u cyfuno) | 7 |
| Defnydd problematig o alcohol | 1 |
| Cyfnod yn y carchar | 6/7 cyn TG 1/7 ar ôl cael cartref, am ddim ond 24 awr |
| Hanes o geisio cyflawni hunanladdiad neu gymryd gor-ddos | 5 |
| Hanes o hunan-niweidio | 6 |
| Plant wedi eu cymryd i ffwrdd cyn TG | 6 |
| Dychwelwyd y plant i fyw gyda'u mam/bellach mewn cysylltiad rheolaidd | 3/7 ers eu cartrefu trwy TG |

Yn ystod eu cyflwyniad yn y gynhadledd, aeth y ddau aelod o staff Basis Yorkshire ymlaen i danlinellu rhai o agweddau'r model Tai yn Gyntaf roeddynt hwy'n eu hystyried fel rhai arbennig o bwysig. Yn benodol, tynnwyd sylw at bwysigrwydd cyflenwi Tai yn Gyntaf yn unol â'r egwyddorion, gan amlygu'r rhai oedd wedi bod yn hynod o bwysig yn eu prosiect hwy.

Trafodwyd gwahanu'r elfennau rheoli tai a chymorth fel rhywbeth oedd yn gwbl hanfodol, ac felly hefyd y cymorth unigolyddol, person-ganolog. Pwysleisodd y staff o Basis bwysigrwydd eu partneriaeth gyda'r landlord cymdeithasol sy'n darparu'r llety. Pwysleisiwyd hefyd y cysyniadau o fod yn anfeirniadol, yn drawma-wybodus, a dangos parch.

Aeth y cyflwynwyr ymlaen i restru'r deilliannau maent wedi eu gweld yn codi o waith eu prosiect – a'r rheiny'n aml yn gysylltiedig â Tai yn Gyntaf. Maent yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: mwy o ymgysylltu ag asiantaethau eraill; llai yn dychwelyd i'r carchar; arbed costau i'r cyngor ac asiantaethau statudol eraill; ac, yn y pen draw, menywod nad ydynt bellach yn cael eu caethiwo mewn 'sbeiral o anhrefn'.

Fodd bynnag, nodwyd rhai heriau hefyd, a phrinder tai ymhlith y rhai mwyaf (nid yw hynny'n anarferol yng Nghymru chwaith). Mae'r angen am ddealltwriaeth o'r model ar ran yr holl bartneriaid unwaith eto'n rhywbeth a welwyd yng Nghymru. Yn benodol, mae angen am gyd-ddealltwriaeth o gymorth 'di-amod'. Mae ar y gymuned o gwmpas Tai yn Gyntaf angen rheolaeth a sylw; cyflwynodd staff Basis rai enghreifftiau o gymdogion yn 'gwylio' eu cleientiaid. Gall tensiynau fel y rhain godi, a gosod heriau i brosiectau Tai yn Gyntaf.

I gloi, trodd y cyflwyniad ei ffocws ar y gwersi a ddysgwyd: nid yw Tai yn Gyntaf yn gweithio i bawb yn syth bìn; mae'n bosibl y bydd angen i bobl roi sawl cynnig ar sefydlogi eu bywydau; mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i leoliad tai; mae angen meddwl yn ofalus am fater diogelu; ac, yn olaf, mae angen i weithwyr cymorth fod yn ystyriol o gymhlethu trawma, sy'n gallu cael effaith negyddol ar hunan-barch person.

## CYD-DESTUN EHANGACH Y RHWYDWAITH

Mae'n werth tynnu sylw at ddarn o waith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan aelodau o'r Rhwydwaith Tai yn Gyntaf. Mae egwyddorion Tai yn Gyntaf, a ddefnyddiwyd ledled Cymru ers 2018, yn cael eu hadolygu gan grŵp gorchwyl-a-gorffen, a sefydlwyd yn unswydd i wneud y gwaith hwn.

Er na fydd ysbryd yr egwyddorion yn newid, ac y bydd awydd y Rhwydwaith i atgyfnerthu ac ailddatgan ffyddlondeb i'r model Tai yn Gyntaf yn parhau'n gryf, gallai rhai o'r egwyddorion elwa o newidiadau bach a fyddai'n well adlewyrchiad o'r cyd-destun Cymreig ym maes tai a digartrefedd. Mae rhai o'r rhesymau dros yr adolygiad egwyddorion hwn, a'r cyd-destun o'i amgylch, yn berthnasol i'r ymchwil a'r adroddiad yma.

Mae'r drydedd egwyddor gyfredol a ddefnyddir yng Nghymru yn gwbl eglur yn rhoi ffocws cymorth Tai yn Gyntaf ar bobl sydd wedi cysgu ar y stryd dros gyfnod hir. Cymerir yn ganiataol fod y model Tai yn Gyntaf yn cael ei ddefnyddio'n fwyaf effeithiol i roi cymorth i bobl sy'n profi mathau hynod weladwy o ddigartrefedd, megis cysgu ar y stryd. Er bod yr egwyddor fel y nodwyd hi wedi bod yn ddefnyddiol hyd yma, mae yna broblemau wrth ffocysu ar bobl sy'n cysgu ar y stryd. Mae menywod, er enghraifft, yn llai tebygol o wneud hynny – maent yn fwy tebygol o aros gyda phobl neu syrffio soffas. Mae'r ymateb lleol a chenedlaethol i'r pandemig COVID-19 hefyd wedi gostwng y nifer o bobl sy'n byw ar y stryd, ond mae hynny'n llai perthnasol i'r adroddiad penodol hwn.

Yn ychwanegol, gallai egwyddorion sy'n cynnwys gwaith trawma-wybodus a rhywedd-wybodus, yn ogystal ag agwedd at waith sy'n seiliedig ar gryfderau ac yn berson-ganolog, gael eu diwygio i annog cynhwysiant o fath mwy actif. (Mae'n werth nodi hyn – er na chaiff egwyddor ynddi'i hun ei diwygio rhyw lawer, os o gwbl, gellid diwygio mwy ar y sgorio a'r wybodaeth ategol ynghlwm ag egwyddor.) Hynny yw, yn hytrach na dim ond bod yn agored i gefnogi rhywun, waeth beth fo'r cefndir, dylai darparwyr cymorth chwilio am ffyrdd o fod yn rhagweithiol wrth groesawu pobl yn seiliedig ar bwy ydyn nhw. Byddai hyn, wrth gwrs, yn cynnwys menywod yn derbyn cymorth gan Tai yn Gyntaf. Trwy ddiwygio'r egwyddor hon, mae'r Rhwydwaith yn gobeithio sicrhau bod menywod a allai gael budd o gymorth Tai yn Gyntaf yn cael cynnig y cymorth hwnnw.

I gloi, mae'r egwyddor olaf yn y rhestr gyfredol, sy'n awdurdodi cysylltiad â sefydliadau ac asiataethau nad ydynt yn y maes tai, yn y model Tai yn Gyntaf, hefyd yn berthnasol yma. Fel y trafodwyd yn yr adroddiad hwn, mae cysylltiadau gyda sefydliadau arbenigol sy'n gweithio gyda menywod yn holl bwysig, a gellid pwysleisio hyn mewn set o egwyddorion a ddiweddarwyd. Wrth gwrs, nid yw hynny'n golygu na ddylai neu na allai prosiectau Tai yn Gyntaf ddatblygu sgiliau ac arbenigeddau perthnasol yn fewnol.

Caiff Is-grŵp Tai yn Gyntaf i Fenywod ei ddiweddaru, a bydd yn parhau i ddarparu mewn-welediad wrth i'r adolygiad hwn barhau. Yn y grŵp gorchwyl-a-gorffen, mae cynrychiolaeth gref o ran gwybodaeth berthnasol ac arbenigedd mewn materion sy'n effeithio ar fenywod.

## YR HAWL I GAEL TAI DIGONOL

Yn eu hymateb i ymgynghoriad diweddar Llywodraeth Cymru ar dai digonol, amlygodd Cymorth i Ferched Cymru yr heriau penodol a wynebir gan oroeswyr VAWDASV a menywod sy'n cael eu hecsbloetio gan y diwydiant rhyw.

> *Gall methu sicrhau tenantiaethau o ganlyniad i dderbyn budd-dal tai, neu oherwydd anawsterau ariannol, arwain at oroeswyr VAWDASV yn cael eu hecsbloetio'n rhywiol. Roedd y Grŵp Gweithredol Cymru Gyfan ar Fenywod sy'n cael eu Camfanteisio'n Rhywiol, a drefnir gan Gymorth i Ferched Cymru, wedi amlygu'r ffaith bod oedolion sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol yn cael eu gwthio, eu gorfodi neu eu manipiwleiddio i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol gan drydydd parti, neu'n gwneud hynny o anghenraid i ariannu anghenion sylfaenol. Mae hyn yn cynnwys trefniadau 'rhyw am rent', lle mae unigolyn yn cynnig llety ar raddfa is, neu am ddim, yn gyfnewid am weithredoedd rhywiol. Gall rhai goroeswyr deimlo mai hwn yw'r unig opsiwn i sicrhau llety; fodd bynnag, mae'n gadael unigolion yn agored i ragor o gam-drin a thrais. Ymhellach, mewn sesiwn briffio yn 2022, amlygwyd hyn: allan o'r 101 o fenywod oedd wedi gwerthu neu gyfnewid rhyw neu ddelweddau, roedd 63 wedi bod yn ddigartref ar ryw bwynt yn eu bywydau. Gall y rhwystrau mae goroeswyr yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad at lety addas a diogel atal eu proses o gymryd rheolaeth dros eu bywydau eu hunain a byw heb ofn.*
>
> *Mae Cymorth i Ferched Cymru'n cydlynu fforwm i weithwyr rhyw sy'n cael hecsbloetio, ar gyfer gweithwyr ar y rheng flaen. Mewn fforwm a gynhaliwyd yn ddiweddar, nodwyd nad oedd yr asesiad digartrefedd a gynhelid ar gyfer nifer fawr o oroeswyr a chanddynt anghenion cymhleth, a'r rhai oedd wedi cael eu hecsbloetio, yn briodol drawma-wybodus. Amlygwyd y ffaith nad oedd yr asesiad digartrefedd yn cymryd i ystyriaeth anfanteision niferus neu wahanol anghenion y goroeswyr. Yn aml iawn ar hyn o bryd mae angen i'r awdurdod lleol gysylltu â goroeswr, heb ystyried y ffaith y gallai rhai unigolion fyw bywyd amharhaol, neu nad oes ganddynt fynediad at ffôn. Mae yna ddiffyg ffordd o weithio sy'n seiliedig ar gryfder, ac yn berson-ganolog, mewn sefyllfaoedd lle nad oes neb yn deall y rhai sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol, ac mae hyn yn cyfrif yn eu herbyn pan fyddant yn colli apwyntiadau neu os yw'n anodd cysylltu â hwy. Maent felly'n cael eu labelu a'u stigmateiddio fel rhai sy'n annibynadwy ac amharod i ymgysylltu. Cynhaliodd Shelter beth ymchwil i mewn i'r system tai a digartrefedd gyfredol, gan amlygu ymhellach fod unigolion yn teimlo eu bod yn ail-fyw digwyddiadau trawmatig, a bod yn aml ddisgwyliad y byddent yn cario dogfennau swyddogol gyda hwy. Nid yw'r disgwyliad y bydd unigolion yn cario dogfennau swyddogol gyda hwy, er enghraifft, yn cyfrif am amgylchiadau goroeswyr VAWDASV sydd wedi gorfod ffoi oddi wrth risg uchel o niwed difrifol. Mae hyn yn dangos diffyg dealltwriaeth gan rai sy'n cynnal yr asesiadau, o ran anaddasrwydd eu ceisiadau a'r effaith aildrawmateiddio barhaus.*

## ARGYMHELLION

1. Dylai sefydliadau arbenigol VAWDASV fod yn sefydliadau arweiniol yng nghyd-destun cyflenwi prosiectau Tai yn Gyntaf i Fenywod
2. Dylai prosiectau generig Tai yn Gyntaf weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau arbenigol VAWDASV i sicrhau atgyfeiriadau priodol a chymorth i fenywod
3. Dylai prosiectau generig Tai yn Gyntaf gymryd camau rhagweithiol i hyrwyddo eu gwasanaethau a sicrhau eu bod yn gynhwysol i fenywod
4. Dylai prosiectau generig Tai yn Gyntaf annog a galluogi eu staff i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau o gwmpas yr heriau arbennig sy'n wynebu menywod digartref, a'r dulliau sy'n angenrheidiol i'w cefnogi hwy (a'u plant lle bo hynny'n briodol)
5. Dylai prosiectau generig Tai yn Gyntaf sicrhau bod eu staff yn deall yr ystod lawn o broblemau sydd o fewn VAWDASV, nid cael eu cyfyngu i gam-drin domestig yn unig
6. Dylai comisiynwyr sicrhau bod yna ddarpariaeth Tai yn Gyntaf briodol ar gyfer menywod o fewn eu hardal leol, yn cynnwys prosiectau arbenigol Tai yn Gyntaf i Fenywod lle bo hynny'n briodol
7. Dylai comisiynwyr sicrhau bod sefydliadau arbenigol VAWDASV yn cymryd rhan fel partneriaid pan yn darparu prosiectau generig Tai yn Gyntaf
8. Dylai timau digartrefedd Llywodraeth Cymru a VAWDASV fod yn ymwybodol o, a darparu arweiniad priodol ar, anghenion menywod digartref, ac anghenion cymorth cymhleth sy'n cyd-ddigwydd fel rhan o'r symudiad at Ailgartrefu Cyflym ac ymestyn Tai yn Gyntaf yng Nghymru
9. Pan fydd yr adolygiad egwyddorion cyfredol wedi ei gwblhau, dylai'r Is-grŵp Tai yn Gyntaf i Fenywod ystyried a oes angen diwygio'r egwyddorion Tai yn Gyntaf, neu roi mwy o bwysau ar brosiectau Tai ar gyfer Menywod. Ni ddylai hyn, fodd bynnag, symud oddi wrth ysbryd egwyddorion Tai yn Gyntaf, sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol.

HOUSING FIRST NETWORK WALES



cymorth cymru

cysylltu • cryfhau • dylanwadu

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First